# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 16-03-09

**Presennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Peter Read a Dewi Llewelyn.

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol); Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu), Y Rhingyll Dewi Jones, Raymond Williams (Swyddog Rhawd Cymunedol);

**Ymgeiswyr**: Mr Mark Barbie , (Tenant)), Mr Vic Barbie, (tad a phartner busnes), Claire Johnson, cyfreithiwr yn cynrychioli Enterprise Inns), Wynne Hughes, (Enterprise Inns – Deilydd y Drwydded).

**Gwrhwynebydd:** Mr Robert Lewis, (yn byw yn lleol)
.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED TAFARN AUSTRALIA, PORTHMADOG**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu i adolygu Trwydded Eiddo'r Australia, Porthmadog , o ganlyniad i nifer o achosion a ddigwyddodd rhwng 3 Awst, 2008 a 26 Rhagfyr, 2008.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

i. Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Drwyddedu (gydag argymhelliad)

ii. Rhoddwyd cyfle i'r Ymgeisydd ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd

iv. Rhoddwyd cyfle i ddeilydd y drwydded neu eu cynrychiolydd ymateb i'r sylwadau

v. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gallai aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gallai'r Ymgeisydd a deiliaid y drwydded neu eu cynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Wrth gyflwyno sylwadau i gefnogi'r cais cyfeiriwyd at nifer o achosion y gellid eu priodoli i dafarn yr Australia. Nodwyd bod nifer o'r achosion, a ddigwyddodd rhwng 3 Awst 2008 a 26 Rhagfyr, 2008, yn seiliedig ar drosedd ac anhrefn.

Cynhaliwyd cyfarfod Cam 2 ddydd Mercher 3 Rhagfyr ynglŷn â rheolaeth y sefydliad gyda chynrychiolwyr yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol yn ogystal â'r Goruchwilliwr Eiddo Dynodedig a'i dad yn bresennol.
Bryd hynny cytunwyd ar gamau i gynnal Cynllun Gweithredu, ond cyn i'r Cynllun gael ei lofnodi a'i roi ar waith 'roedd yr eiddo dan sylw yn destun Ymgyrch Pryniant Prawf gan yr Heddlu. Llwyddodd unigolyn, a oedd yn 15 oed, i brynu potel o 'WKD' Blue o'r eiddo.

Ychwanegwyd bod yr Heddlu wedi ymdrin â 5 achos pellach ers 26 Rhagfyr gyda'r diweddaraf yn digwydd ar nos Sadwrn, 14 Mawrth.

Oherwydd bod tri o'r pedwar amcan trwyddedu, sef trosedd ac anhrefn, atal niwsans i'r cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed, yn cael eu torri, ystyriwyd y byddai'n briodol adolygu'r mater.

Nododd Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu fod trafodaethau pellach wedi eu cynnal gyda'r tenantiaid a'u cynrychiolwyr bod bellach wedi dod i gytundeb ynglŷn â diwygiadauar gyfer unrhyw weithgareddau i'r drwydded. Yn ogystal â'r rhain 'roedd yr Heddlu am ddiwygio trefn yr oriau ansafonol ar nosweithiau Gwener a Sadwrn ar bob Gwyl y Banc, Noswyl Nadolig a Gwyl San Steffan a bod gwerthiant alcohol yn y dafarn yn dod i ben am 1am a'r dafarn yn cau am 1:30am.

Dywedodd y gwrthwynebydd ei fod yn cefnogi ymdrechion yr Heddlu ond ei fod am fynd gam ymhellach trwy sicrhau fod cerddoriaeth yn dod i ben yn y dafarn ar amser penodedig, ac na ddylai alcohol gael ei werthu yno ar ôl hanner nos.

Ychwanegodd ei fod yn byw o fewn 50 medr i'r dafarn ond ei fod yn siarad ar ran nifer o drigolion eraill. Dywedodd fod y trafferthion yn digwydd yn bennaf ar nosweithiau Mercher, Gwener a Sadwrn. Nodwyd ymhellach ganddo fod y sŵn yn parhau hyd oriau mân y bore a bod y problemau'n ddi-ddiwedd yn hytrach nag ambell un yn awr ac yn y man.

Mewn ymateb i'r cais a'r sylwadau a wnaed cyflwynodd cynrychiolydd tenant tafarn yr Australia y sylwadau canlynol:

- Fod yr eiddo wedi cau am gyfnod o wyth mis, ond nad oedd cyfeiriad wedi ei wneud at broblemau'n dod i ben yn ystod yr amser yma.
- Fod y tenantiaid wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr eiddo a'u bod yn bwriadu denu pobl i aros yno. Pwysleisiodd na fyddai pobl am aros yno pe byddai'r sŵn yn afresymol.
- Nad oedd y gwrthwynebydd wedi gwneud cwyn uniongyrchol i'r tenant
- Byddai gosod yr amseroedd caeth a awgrymwyd gan y gwrthwynebydd ar gael cerddoriaeth a gwerthu alcohol yn bygwth dyfodol y dafarn
- Mai tystiolaeth gan un person lleol yn unig oedd yn cael ei gyflwyno fel gwrthwynebiad i weithgareddau'r dafarn.
- Pwysleisiodd y byddai'r amodau oedd yn cael eu gosod gan yr heddlu yn ddigonol ar gyfer cael trefn.

Wrth ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan aelodau'r Is-bwyllgor dywedodd tenant yr Australia nad oedd drws cefn ar yr eiddo ar gyfer rhai oedd yn dymuno mynd allan i ysmygu. Ond eglurodd fod cais cynllunio a wnaed ar gyfer datblygiad o'r fath wedi ei wrthod oherwydd y byddai'n amharu ar drigolion cyfagos.

O safbwynt y broblem o ysmygwyr yn gadael yr eiddo ac yn dychwelyd dro ar ôl tro, dywedodd y byddai'n barod i gyflwyno system bandiau adnabod i sicrhau na fyddai cwsmeriaid newydd yn mynd i'r dafarn ar ôl 11:00pm.

'Roedd hefyd yn barod i roi gwybod i'r Heddlu ymlaen llaw pan fyddai bwriad i gynnal adloniant yn y dafarn ar nos Sadwrn.

Eglurodd fod plant yn cael mynediad i'r dafarn ar gyfer cael bwyd gyda'u teuluoedd, ac mewn ymateb i'r Ymgyrch Pryniant Prawf, dywedodd ei fod yn derbyn i gamgymeriad gael ei wneud, ond nad oedd unrhyw rag-rybudd o brofion o'r fath wedi ei dderbyn. Credai fod hyn yn annheg.

Gadawodd y tenantiaid a'u cynrychiolydd, swyddogion yr Heddlu a'r swyddogion trwyddedu yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn yn trafod y cais.

Yn ystod y drafodaeth rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Pryder ynglŷn â chymaint yn mynd i mewn ac allan o'r dafarn i ysmygu, a'r angen i gyflwyno system bandiau adnabod.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio offer cyfyngydd sŵn yn yr eiddo
- Diwygio oriau cau y dafarn ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.

**PENDERFYNWYD diwygio trwydded gwesty'r Australia fel a ganlyn:**
**a) Ni fydd cerddoriaeth fyw, perfformiadau dawns na darpariaeth o gyfleusterau i greu cerddoriaeth na dawns ar ddyddiau Sul i Iau.**

**b) O ddyddiau Sul i Iau bydd darpariaeth cerddoriaeth wedi ei recordio ar lefelau cefndirol yn unig**

**c) Goruchwylwyr drysau gweladwy iawn wedi eu cymeradwyo gan yr SIA (lleiafswm o 2 ar gyfer pob noson adloniant.)**

**ch) Camerau TCC tu mewn a thu allan . Cedwir ffilmiau ar fformat heb ei olygu am gyfnod o ddim llai na 31 diwrnod, a byddant ar gael ar gais yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.**

**d) Y camerâu TCC i gael eu gosod erbyn 7 Mai, 2009.**

**dd) Gweithredu cynllun profi oedran a'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn a'u cymeradwyo.**

**e) Peidio gwerthu diod alcoholig i unigolyn meddw**

**f) Dim mynediad i unrhyw gwsmer newydd ar ôl 2300**

**g) Dim alcohol i'w werthu yn y dafarn ar ôl 12:30am a'r dafarn i gau am 1am ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.**

**ng) Diwygio'r oriau ansafonol ar nosweithiau Gwener a Sadwrn ar bob Gwyl y Ban, Noswyl Nadolig a Gwyl San Steffan i gynnalgweithgareddau dan baragraffau A, B, C, E, F, G, H, I, J, L a M hyd 01:00awr ac i gau a, 01:30 awr.**

**h) Yr Heddlu i gael gwybodaeth os oes bwriad i gynnal adloniant yn y dafarn ar unrhyw adeg, ag eithro nosweithiau Gwener.**

**Yn ogystal â'r amodau uchod, 'roedd aelodau'r Is-bwyllgor yn argymell y dylai'r tenantiaid gynnal trafodaethau gydag Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd i gytuno ar lefelau swna'r posibilrwydd o gael cyfyngydd sŵn yn yr eiddo.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.00pm